



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad: Crynodeb o'r ymatebion

Cyflawni ein llwybr carbon isel hyd at 2030:
Fersiwn ar gyfer pobl ifanc

Chwefror 2019

Y Cefndir

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Cytundeb Paris 2015 wedi sefydlu trywydd ar gyfer datgarboneiddio'r economi fyd-eang. O dan Deddf yr Amgylchedd, mae rhaid i Weinidogion Cymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80 y cant yn 2050 (o gymharu â llinell sylfaen 1990). Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i Weinidogion Cymru osod targedau allyriadau ar gyfer 2020, 2030 a 2040, a chyllidebau carbon a fydd yn cyfyngu ar faint yr allyriadau yng Nghymru dros gyfnodau o 5 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu llwybr datgarboneiddio yn unol â'r Ddeddf.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, cydweithio'n well â phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Bydd hynny'n ein helpu i greu Cymru y byddwn ni i gyd am fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Cymru yn wynebu nifer o heriau yn awr ac yn y dyfodol, fel y newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd a swyddi a thwff. Er mwyn i'r afael â'r rhain, mae angen inni weithio gyda'n gilydd. Er mwyn rhoi ansawdd bywyd da i'r genhedlaeth bresennol ac i genedlaethau'r dyfodol, mae angen inni feddwl am effeithiau hirdymor y penderfyniadau a wnawn. Bydd y gyfraith hon yn gwneud yn siŵr bod ein sector cyhoeddus yn gwneud hynny.

Ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad oedd gofyn barn pobl ifanc am ein syniadau ar gyfer lleihau allyriadau rhwng yn awr a 2030. Mae dogfen yr ymgynghoriad ar gael ar <https://beta.llyw.cymru/llwybr-carbon-isel-i-gymru>.

Daeth 96 o ymatebion i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad: 1 yn Gymraeg a 95 yn Saesneg. Cafodd yr holl ffurflenni ymateb eu cyflwyno ar-lein. Mae'r ddogfen hon yn cryno ymatebion i bob cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori.

1. Beth yw dy oedran?

Roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr (39%) o dan 10 oed. Yn ail yr oedd pobl ifanc 11-15 oed (32%), felly roedd 71% o'r holl ymatebwyr yn bobl ifanc o dan 16 oed. Oddi wrth y grŵp oedran 16-20 oed y daeth y nifer lleiaf (9%) o sylwadau i law. Roedd 16% o'r ymatebion oddi wrth bobl rhwng 21 a 25 oed, ac ni nododd 4% eu hoedran.

Oedran	Canran o'r ymateb
O dan 10	39%
11-15	32%
16-20	9%
21-25	16%
Gwell gennyf beidio â dweud	4%

2. Wyt ti yn yr ysgol, coleg neu prifysgol?

Roedd dros hanner yr ymatebion oddi wrth bobl ifanc mewn ysgolion cynradd (58%). Roedd 16% ohonynt oddi wrth bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd a 6% oddi wrth bobl ifanc sydd yn y coleg neu'r brifysgol, felly roedd 80% o'r ymatebwyr yn dal ym myd addysg. Rhestrwyd 14% o dan Arall a 3% o dan Gwell gennyf beidio â dweud.

	Canran o'r ymateb
Ysgol gynradd	58%
Ysgol uwchradd	16%
Coleg	3%
Prifysgol	3%
Arall	14%
Gwell gennyf beidio â dweud	5%

3. Wyt ti'n credu bod newid hinsawdd yn cael ei gymryd digon o ddifrif yng Nghymru?

Roedd yr ymatebion yn dangos bod hanner o bobl ifanc yn teimlo bod newid hinsawdd yn cael ei gymryd digon o ddifrif yng Nghymru. Roedd yr ymatebion oddi wrth ddisgyblion ysgol gynradd yn rhai cadarnhaol yn bennaf (46%). Mae'r ffigurau i'r gwrthwyneb yn llwyr ar gyfer grwpiau eraill, gyda mwy o ymatebion negatif na bositif.

	Canran o'r ymateb				
	Pob ymateb	Ysgol gynradd	Ysgol uwchradd	Coleg / Prifysgol	Arall / Gwell gennyf beidio â dweud
Ydw	33%	46%	20%	33%	6%
Nac ydw	50%	41%	53%	67%	67%
Ddim yn gwybod	17%	13%	27%	0%	28%

Er bod y canlyniadau'n wahanol, roedd nifer o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn debyg. Roedd teimlad cryf ymhlith yr ymatebwyr nad yw'r cyhoedd yn deall yr allyriadau y maent yn eu creu na'r effaith y maent yn ei chael ar y newid yn yr

hinsawdd. Teimlent fod diffyg addysg a diffyg cyfrifoldeb ac nad yw'r newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth. Roedd hynny'n wir hefyd am ddiwydiant, awdurdodau lleol, Llywodraeth (Cymru a'r DU) ac yn fyd-eang.

Yn gyffredinol, roedd y sylwadau'n gofyn i'r Llywodraeth wneud mwy i helpu hyrwyddo ffordd carbon isel o fyw. Er enghraifft, cymell pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau trydan, ynni adnewyddadwy, gostyngiad yn y galw am ynni ac i ddiwydiant fod yn lanach.

Roedd yr ymatebion cadarnhaol yn cydnabod bod gan Gymru eisoes darged ar gyfer 2050, ac roedd hynny'n cael ei ystyried yn ddechrau da. Roedd eraill yn cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn barod ar ynni adnewyddadwy ac ailgylchu yng Nghymru.

4. Yn gyffredinol, faint rwyf ti'n cytuno â'r camau gweithredu yr ydym am fwrw ymlaen â nhw? (1=cytuno'n llwyr, 5=anghytuno'n llwyr)

Yn gyffredinol, roedd mwy na'r deuparth o'r bobl ifanc yn cytuno â'n syniadau ar gyfer lleihau allyriadau. Roedd bron tri chwarter o blant oedran cynradd ac uwchradd yn cytuno, ond roedd disgyblion uwchradd yn tipyn mwy tebygol i anghytuno (14% yn erbyn 8%).

Safle	Canran o'r ymateb				
	Pob ymateb	Ysgol gynradd	Ysgol uwchradd	Coleg / Prifysgol	Arall / Gwell gennyf beidio â dweud
1	31%	34%	33%	33%	17%
2	38%	38%	40%	17%	44%
3	18%	21%	13%	0%	11%
4	7%	4%	13%	33%	6%
5	7%	4%	0%	17%	22%

Er bod y sylwadau'n rhai cadarnhaol, roedd amodau ynghlwm wrthyn nhw hefyd. Y prif amod oedd y dylid gweithredu'r syniadau hyn yn llawn er mwyn sicrhau'r newid sydd ei angen. Roedd rhai'n pryderu bod y syniadau hyn yn rhy uchelgeisiol efallai. Gofynnwyd hefyd a oeddent yn ddigon i leihau allyriadau sy'n cael eu rhyddhau gan ddiwydiant ac roedd cwestiynau hefyd ynglŷn â faint y byddent yn ei gostio. Teimlai eraill nad yw'r camau hyn yn ddigon uchelgeisiol.

Ymhlith y syniadau eraill a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr oedd gwahardd ceir petrol a cheir diesel, lleihau gwastraff plastig a gwella effeithlonrwydd ynni ar draws pob sector.

5. Pa syniadau eraill sydd gennych i leihau allyriadau rhwng nawr a 2030?

Pŵer

- Buddsoddi mewn cynlluniau adnewyddadwy fel Morlyn Llanw Bae Abertawe
- Codi tyrbinau gwynt sy'n cael eu gwneud gartref yn eich gardd
- Rhagor o baneli solar/mwy o ynni adnewyddadwy (ac yn rhatach)
- Defnyddio llai o drydan
- Creu diwydiant yng Nghymru ar gyfer ynni adnewyddadwy gan ddefnyddio peirianwyr o brifysgolion lleol

Trafnidiaeth

- Croesfannau sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr lle mae'r goleuadau'n wyrdd fel arfer ar gyfer cerddwyr, a chyfnodau byrrach i geir fynd heibio
- Mae angen i geir trydan fod yn fwy fforddiadwy. Nid oes llawer o geir trydan ar hyn o bryd y gallai teulu cyffredin eu fforddio
- Rhagor o dtrafnidiaeth gyhoeddus, a gwell trafndiaeth gyhoeddus, sy'n fwy fforddiadwy
- Peidio â gyrru cymaint
- Rhagor o deithio llesol
- Gwell cysylltiadau trafndiaeth
- Trafnidiaeth sy'n niwtral o ran trafndiaeth
- Rhagor o lonydd beicio
- Gwahardd pob cerbyd â dim ond un person ynddo
- Llai o hediadau

Diwydiant a Busnes

- Llai o ffatrioedd sy'n llygru
- Gwahardd deunyddiau pacio plastig
- Gwell addysg ar leihau allyriadau
- Cau ffatrioedd am bythefnos bob blwyddyn
- Lleihau nifer y ffatrioedd
- Storio nwyon dan ddaear
- Rhoi'r gorau i werthu bylbiau golau nad ydynt yn rhai â Deudau Allyrru Golau (LED)
- Rheoliadau llymach ar gyfer diwydiant a hyrwyddo technolegau fel dal carbon

Adeiladau

- Rhaid gosod paneli solar ar bob adeilad newydd
- Inswleiddio cartrefi
- Gwneud tai hŷn yn fwy effeithlon o ran ynni
- Rhoi arweiniad i'r cyhoedd ar sut i leihau allyriadau o gartrefi
- Datgarboneiddio cartrefi

Amaethyddiaeth/Defnydd Tir

- Bwyta mwy o fwyd lleol/a dyfwyd gartref
- Annog pobl i fwyta bwyd lleol a llai o gig
- Ailddylunio cymorthdaliadau fferm ar ôl Brexit er mwyn annog pobl i beidio â ffermio defaid ym mhob man
- Dechrau ailblannu coetiroedd hynafol sydd wedi'u colli y parciau cenedlaethol

- Rhoi mwy o gyllid ar gyfer gwyddorau amgylcheddol, yn enwedig y rheini sy'n canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion atebion

Addysg/Gyrfaoedd

- Rhoi rhagor o wybodaeth i ysgolion
- Rhagor o addysg a gwaith ar y teledu ac mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Addysgu'r boblogaeth hŷn
- Rhoi mwy o gyllid i'r gwyddorau amgylcheddol

Gwastraff

- Defnyddio llai o blastig
- Ailgylchu mwy / ailgylchu'n well
- Gwahardd deunyddiau pacio plastig

6. Ym mha faes wyt ti'n meddwl y dylem ni leihau allyriadau yn gyntaf?

Teimlai'r ymatebwyr mai'r sector pwysicaf i'w ddatgarboneiddio oedd Pŵer. Y ganran yn yr achos hwnnw oedd ychydig dros 27%, ac roedd Trafnidiaeth yn dynn ar ei sodlau ar 24%. Gwastraff oedd yn 3ydd ar 18%, yna Adeiladau ar 16% ac Amaethyddiaeth yn olaf ar 15%. Roedd y prif bryderon yn gysylltiedig â'r ffaith mai Pŵer yw'r sector sy'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o allyriadau a hefyd â'r angen i newid i ffynonellau adnewyddadwy, carbon isel.

Roedd un awgrym cyffredinol yn ymwneud â newid ymddygiad, sef bod angen inni fel defnyddwyr newid sut yr ydym yn cynhyrchu ynni, yr hyn yr ydym yn ei fwyta ac o le yr ydym yn cael ein bwyd.

Sector	Canran o'r ymateb
Pŵer	27%
Trafnidiaeth	24%
Gwastraff	18%
Adeiladau	16%
Amaethyddiaeth	15%

7. Sut wyt ti'n meddwl y gallai'n syniadau i leihau allyriadau gael effaith arnat ti?

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai'r syniadau i leihau allyriadau yn effeithio arnyn nhw. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini'n credu y byddai'r effeithiau'n rhai cadarnhaol. Tynnwyd sylw at well cyfleoedd gwaith, mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, gwell iechyd ac aer glanach. Y teimlad oedd y gallai hyn gael effaith sylweddol o ran newid ymddygiad y cyhoedd ac y byddai, ar y cyfan, yn helpu pobl i arbed arian. Dyma gasgliad un o'r ymatebwyr: "Bydd yn gwneud Cymru yn lle gwell i fyw ynddo."

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r syniadau'n cael effaith negyddol arnyn nhw. Teimlent y byddai'n cymryd mwy o amser i deithio, na fyddai llawer yn gallu fforddio cerbydau trydan ac y gallai effeithlonrwydd ynni fod yn ddrud i bobl. Roeddent yn bryderus hefyd na fyddai gan rai busnesau ddyfodol mewn Cymru a fyddai wedi cael ei datgarboneiddio.

8. A oes gennyt unrhyw sylwadau eraill am yr ymgynghoriad hwn?

Ni chafwyd cynifer o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ond roedd teimlad cryf bod pobl ifanc yn hoffi bod yn rhan o'r drafodaeth a bod y cwestiynau yn berthnasol iddyn nhw. Un sylw oedd galwad i "sicrhau bod y camau yn digwydd", a gofynnodd llawer o ymatebwyr eraill inni ystyried yr effeithiau yr ydym yn eu cael ar anifeiliaid ac ar ecosystemau. Aeth eraill ati i ail-bwysleisio pwyntiau a wnaed yn yr ymatebion blaenorol, megis lleihau plastig a chreu mwy o ynni adnewyddadwy.

Casgliad

Nid oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod digon yn digwydd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Teimlent yn gryf fod diffyg dealltwriaeth a diffyg ymdeimlad o frys am y newid yn yr hinsawdd ymhlith y cyhoedd, awdurdodau lleol a'r Llywodraeth. Roedd addysg a newid ymddygiad yn elfennau allweddol os ydym am lwyddo i gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau.

Teimlai'r ymatebwyr fod angen mawr i greu mwy o ynni adnewyddadwy, i annog rhagor o bobl i ddefnyddio cerbydau trydan ac i wella trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau cerdded a beicio.